Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd
EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

21 Gorffennaf 2024
Trindod VIII

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Siwan Seaman

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Gerallt Hughes / Dilys Jones
Emynau: 6 (Tallis' Canon); 156 (Hesperus 72); 70 (Quem Pastores); 61 (Joanna)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi
Salm: 73:21-28
Darlleniadau: Ecclesiasticus 18:1-14
Hebreaid 2:5-18
Darllenwyr: Delyth Davies / Rhys Jones
Emynau: 249 (Fulda 16); 496 (Sabbath 110); 357 (Seelenbrautigam)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Charles Arch, Ann Mears, Patricia Price, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Nos Fawrth 23 Gorffennaf 2024
Dim ymarfer Côr

Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2024
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 28 Gorffennaf 2024
Trindod IX
10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaid

YMARFERION CÔR
Mae ymarferion y côr wedi gorffen am yr haf. Diolch i Ieuan, ein cyfarwyddwr cerdd am ei waith, ac am ffyddlondeb aelodau'r côr yn yr ymarferion.

YR YSGOL SUL
Mae'r Ysgol Sul wedi gorffen am wyliau'r haf. Diolch i Liz Harewood am ei holl waith gofalus gyda'r plant. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ym mis Medi.

ANGLADD
Cynhelir angladd Ann Mears yn EDS dydd Iau 1 Awst am 11.30am.

BARBECIW HAFOD LON
Diolch i bawb a ddaeth i'r Barbeciw nos Wener a'i wneud yn achlysur mor hyfryd. Diolch yn arbennig i Rhys Davies ein cogydd eleni, i Delyth Davies, Shân Morgan ac Alison Stone am y gwaith o gydlynu a chynorthwyo. *Y Ficer*

COFFI A CHLONC
Diolch i bawb a ddaeth i'r Coffi a Chlonc ddoe. Ni fydd bore Coffi ym mis Awst.

GWIBDAITH MIS GORFFENNAF
Yr ydym yn trefnu ymweliad â Maenordy Llancaiach Fawr, Nelson dydd **Mawrth 30 Gorffennaf** rhwng 12.00pm a 4.00pm. Y bwriad yw cael cinio ym mwyty y maenordy yn gyntaf ac wedyn cael ein tywys o amgylch y tŷ. Am ragor o wybodaeth am Lancaiach Fawr, ewch i: www.llancaiachfawr.co.uk/cy/. Pris mynediad i'r maenordy yw £7.95. Os hoffech ddod ar y daith a wnewch chi roi eich enw ar y daflen yng nghefn yr eglwys. Fe welwch hefyd fwydlen y caffi. Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Shân Morgan.

CANOLFAN GLYD – DILLAD DYNION
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu dillad i'r ganolfan glyd dros y misoedd diwethaf.
Ni fyddwn yn casglu rhagor o ddillad am y tro.

Y GANOLFAN GLYD
Mae dros 60 bellach yn mynychu'r ganolfan glyd yn gyson am fwyd ar y Sul. Gofynnir i ni bellach sicrhau bod gennym 6 gwirfoddolwr ar ddyletswydd bob tro yr ydym yn helpu yn y Tabernacl. Diolch i'r rhai sydd eisoes wedi rhoi eu henwau i lawr ar gyfer 4 Awst. Mae angen dau wirfoddolwr arall os yn bosib.

AGOR YR EGLWYS Dydd Mercher 24 Gorffennaf
Yn gwarchod yr eglwys:
Dilys Jones a Heulwen Jones

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Y Nippon Sei Ko Kai
- Ardal Gweinidogaeth Penarth, y Parchedig Mark Jones (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 22 Gorffennaf: Mair Magdalen
Caniad Solomon 3:1-4: Salm 42:1-8; Ioan 20:1-18
Gweddïwn: Y Nippon Sei Ko Kai
Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd, arweinydd i'w benodi

Dydd Mawrth 23 Gorffennaf: Ffraid o Sweden
Micha 7:14-20; Salm 85:1-7; Mathew 12:46-50
Gweddïwn dros: Esgobaeth Hawaii – Eglwys Esgobol Unol Daleithiol America
Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, y Parchedig Matthew Gibbon

Dydd Mercher 24 Gorffennaf:
Jeremeia 1:1-10; Salm 71:1-6; Mathew 13:1-9
Gweddïwn dros: Esgobaeth Henffordd, Eglwys Loegr
Ardal Gweinidogaeth Uwch Cwm Cynon, y Parchedig Richard Green (Arweinydd)

Dydd Iau 25 Gorffennaf: Iago, Apostol
Jeremeia 45; Salm 126: Mathew 20:20-28
Gweddïwn dros: Esgobaeth Southern Highlands – Eglwys Anglicanaidd Tanzania
Ardal Gweinidogaeth Pedair Afon, y Parchedig Ian Hodges (Arweinydd)

Dydd Gwener 26 Gorffennaf: Ann a Joachim
Jeremeia 3:14-18; Salm 121; Mathew 13:18-23
Gweddïwn dros: Esgobaeth Highveld – Eglwys Anglicanaidd De Affrica
Ardal Gweinidogaeth Cwm Llynfi a Chwm Uchaf Afan, y Parchedig Rick Gratton (Arweinydd)

Dydd Sadwrn 27 Gorffennaf: Martha, Mair a Lasarus o Fethania
Jeremeia 7:1-11; Salm 84; Mathew 13:24-30
Gweddïwn dros: Esgobaeth Dwyrain yr Himalayas – Eglwys Unedig Gogledd India
Ardal Gweinidogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Mark Broadway (Arweinydd)